

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

**Mr Roger W. Bowen**

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct  
Line:

**01267 246474**

Dyddiad / Date: **18/05/21**

E-bost / E-mail:

[RWBowen@sirgar.gov.uk](mailto:RWBowen@sirgar.gov.uk)

[RWBowen@carmarthenshire.gov.uk](mailto:RWBowen@carmarthenshire.gov.uk)

Annwyl Ymgynghorai,

### **Hysbysiad o Benderfyniad Aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin**

### **Cynnig i ffedereiddio Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin**

Ddydd Mawrth 18 Mai 2021, cymeradwyodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant yng Nghyngor Sir Caerfyrddin y cynnig canlynol:

Sefydlu ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin o 1 Medi 2021.

Enw arfaethedig y ffederasiwn fydd "Ffederasiwn Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin". Bydd gan y corff llywodraethu ffederal newydd yr hawl i ffurfioli enw ar gyfer y ffederasiwn.

### **Ymgynghoriad ynghylch y Cynnig**

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cynnig hwn yn unol â chanllawiau "Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru - Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ac Awdurdodau Lleol" ac mae'n gobeithio cryfhau'r berthynas sydd eisoes yn llwyddiannus rhwng y tair ysgol.

Wrth benderfynu ar y cynnig, cymerodd yr Aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor Sir dros Addysg a phlant y ffactorau canlynol i ystyriaeth fel y'u hamlinellir yng nghanllawiau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru fel a ganlyn:

### **Safonau, Llesiant a Gwella Ysgolion**

Barn yr awdurdod yw y bydd y cynnig hwn yn helpu i godi safonau addysgol, gwella profiadau dysgu disgyblion a gwella llesiant y pennaeth, y staff a'r disgyblion. Nodir hefyd y byddai'n sicrhau cydweithredu a chysondeb effeithiol o ran y fethodoleg addysgu a dysgu, yn enwedig ar draws cyfnodau, ac yn sicrhau rhannu arfer da, paratoi deunyddiau ac adnoddau.

**Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Direction of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Bydd yr effaith gadarnhaol ar safon yr addysgu a'r dysgu y bydd disgyblion bellach yn eu derbyn o dan arweinyddiaeth un pennaeth gweithredol a chorff llywodraethu yn sicrhau dull cyson rhwng yr ysgolion.

## Y Gymuned Leol

Bu'r Awdurdod Lleol yn ystyried yr effaith ar y gymuned leol lle bydd pob un o'r ysgolion yn cadw ei hunaniaeth unigol o ran ei henw, ei diwylliant a'i hethos, ac yn parhau i reoli ei chyllideb ei hun.

## Trefniadau derbyn

Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgolion yn newid.

## Adroddiad Ymgynghori

Gallwch weld yr Adroddiad Ymgynghori ar gyfer y cynnig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ddilyn y cyfeiriad gwe isod:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/addysg-ac-ysgolion/rhaglen-foderneiddio-ysgolion/ymgynghoriad/#.YJ5P3oeSIPY>

Gwasgwch y ddolen hon sy'n mynd â chi i dudalen we ymgynghoriadau ysgolion. Dewiswch y categori "Ysgol Gynradd" ac yna dewiswch yr opsiwn ar gyfer Llangain, Llansteffan a Bancyfelin.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Roger W. Bowen o'r adran hon.

Yn gywir,



Gareth Morgans  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

### Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Direction of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English